YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (data gwrthgyrff): 13 i 19 Chwefror 2023

Dadansoddiad o gyfran y bobl yng Nghymru sy'n profi'n bositif am wrthgyrff COVID-19 ar gyfer 13 i 19 Chwefror 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 29 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 29 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Cyfran y bobl yng Nghymru a gafodd gwrthgyrff yn erbyn COVID-19**

**Trothwy gwrthgyrff**

**Diffiniadau**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Diweddariad nesaf**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Y datganiad hwn fydd y diweddariad olaf o’r adroddiad yma.

## Cyflwyniad

Mae’r data gwrthgyrff a gyflwynir yn rhan o’r Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) ar draws y DU gyfan. Gellir defnyddio’r data i ddeall pwy sydd wedi cael yr haint yn y gorffennol neu sydd wedi datblygu gwrthgyrff drwy gael y brechlyn.

Mae’r dadansoddiad a gyflwynwyd ar heintiadau yn y gorffennol a/neu’r brechlyn, wedi’i ddiffinio fel profi’n bositif am wrthgyrff i SARS-CoV-2 yn seiliedig ar ganfyddiadau o Arolwg Heintiadau COVID-19. SARS-CoV-2 yw’r enw gwyddonol a roddir i’r feirws penodol sy’n achosi COVID-19.

Gwybodaeth am y dull a ddefnyddir i fodelu amcangyfrifon gwrthgyrff ar gael ar **wefan yr Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)**.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, fel amcangyfrifon o bositifedd gwrthgyrff yn ôl blwyddyn oedran unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ar **wefan y SYG**.

Yn y cyhoeddiad hwn, cynhwysir amcangyfrifon o bositifrwydd gwrthgyrff ar gyfer y trothwyon canlynol: 179 ng/ml, 800 ng/ml, 2000 ng/ml, 4000 ng/ml a 6000 ng/ml.

Mae amcangyfrifon o lefelau positifrwydd gwrthgyrff ar lefelau uwch wedi'u cyflwyno i alluogi monitro lefelau gwrthgyrff a gwanhau yn well. Nid yw'r lefelau hyn yn seiliedig ar ymchwil academaidd ar amddiffyn rhag Omicron, gan nad oes digon o dystiolaeth ar gael eto. Y lefel 800 ng/ml yw'r lefel uchaf lle mae'n bosibl cynhyrchu cyfres hanesyddol yn ôl i fis Rhagfyr 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Diffinnir positifrwydd gwrthgyrff gan grynodiad sefydlog (neu drothwy) o wrthgyrff yn y gwaed; nid yw cael prawf negyddol am wrthgyrff yn golygu nad oes gan berson ymateb imiwn i haint.

Bydd y mwyafrif o bobl sy'n cael eu brechu yn cadw lefel gwrthgorff uwch na chyn brechu, hyd yn oed ar ôl gostwng yn is na'r gwerth trothwy safonol. Nid yw canlyniad negyddol yn golygu bod lefel gwrthgorff ar sero neu nad oes gan berson unrhyw amddiffyniad yn erbyn COVID-19, gan nad yw ymateb imiwn yn dibynnu ar bresenoldeb gwrthgyrff yn unig.

Disgwylir y bydd nifer y bobl sydd â gwrthgyrff yn cynyddu wrth i fwy o bobl gael eu brechu. Fodd bynnag, nid yw canfod gwrthgyrff yn unig yn fesur manwl gywir o amddiffyniad imiwnedd a geir rhag brechiadau. Y rheswm am hyn yw y gall lefelau gwrthgyrff yn y gwaed ddirywio dros amser, sy'n golygu y gall rhai pobl sydd wedi cael COVID-19 o'r blaen yn profi negyddol am wrthgyrff. Am y rheswm hwn, dylid ystyried y ffigurau hyn fel amcangyfrifon o nifer yr achosion o wrthgyrff misol, nid amlygiad cronnus.

## Cyfran y bobl yng Nghymru a gafodd gwrthgyrff yn erbyn COVID-19

Yn y datganiad hwn, rydym yn adrodd ar ganrannau o'r boblogaeth yr amcangyfrifir bod ganddynt wrthgyrff yn erbyn SARS-CoV-2, y firws penodol sy'n achosi coronafirws (COVID-19) uwchlaw dwy lefel: lefel 179 ng/ml a lefel uwch o 800 ng/ml lefel trothwy. Mae mesur positifrwydd gwrthgyrff ar drothwyon uwch yn galluogi arsylwi gwrthgyrff yn pylu yn gynharach. Dyma'r rheswm dros gyflwyno trothwyon uwch hyd yn oed os nad ydynt yn cwmpasu cyfnod hir o amser fel y mae'r trothwyon 179ng/ml ac 800ng/ml.

Rhwng 13 a 19 Chwefror 2023, amcangrifir bod dros 9 o bob 10 person (94.6%) o bobl 16 oed a hŷn wedi cael canlyniad prawf positif am wrthgyrff coronafeirws

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(COVID-19) yn seiliedig ar sampl gwaed ar y lefel trothwy 179 ng/ml (**cyfwng credadwy** o 95%: 93.4% i 95.7%) a 79.5% o oedolion ar y lefel trothwy 800 ng/ml (**cyfwng credadwy** o 95%: 78.0% i 81.0%). sydd yn awgrymu eu bod wedi cael y haint yn y gorffennol neu wedi cael eu brechu.


Gwnaed nifer o welliannau i'r modelu gwrthgyrff sydd wedi arwain at rai newidiadau bach i'r amcangyfrifon positifrwydd gwrthgyrff ers iddynt gael eu diweddaru ddiwethaf. Er bod yr ansicrwydd gyda'r amcangyfrifon yn gyfredinol, mae'n ymddangos bod canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff wedi aros yn uchel yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Amcangyfrif o’r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi cael canlyniad prawf positif am wrthgyrff coronafeirws (COVID-19) rhwng mis Chwefror 2022 a mis Chwefror 2023




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r siart yn dangos bod cyfraddau gwrthgyrff yn parhau i fod yn uchel yn ystod yr wythnosau diwethaf ar y trothwy 179ng/ml, ac wedi cynyddu ar y trothwy 800ng/ml.

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), SYG

Nodyn: Mae'r barrau'n rhoi amcangyfrifon ac mae'r llinellau fertigol tennau ar


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pen y barrau yn dynodi'r cyfyngau credadwy o 95%. Mae barrau glas golau yn nodi canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff ar y trothwy 179ng/ml ac mae barrau glas tywyll yn nodi canran ar y trothwy 800ng/ml yn yr un modd.

Amcangyfrifon a ddangosir ar gyfer wythnosau gwyliadwriaeth o 6 Chwefror 2022 i 19 Chwefror 2022.

Diffinnir positifrwydd gwrthgyrff gan grynodiad sefydlog (neu drothwy) o wrthgyrff yn y gwaed; nid yw cael prawf negyddol am wrthgyrff yn golygu nad oes gan berson ymateb imiwn i haint.

Bydd y mwyafrif o bobl sy'n cael eu brechu yn cadw lefel gwrthgorff uwch na chyn brechu, hyd yn oed ar ôl gostwng yn is na'r gwerth trothwy safonol. Nid yw canlyniad negyddol yn golygu bod lefel gwrthgorff ar sero neu nad oes gan berson unrhyw amddiffyniad yn erbyn COVID-19, gan nad yw ymateb imiwn yn dibynnu ar bresenoldeb gwrthgyrff yn unig.

Disgwylir y bydd nifer y bobl sydd â gwrthgyrff yn cynyddu wrth i fwy o bobl gael eu brechu. Fodd bynnag, nid yw canfod gwrthgyrff yn unig yn fesur manwl gywir o amddiffyniad imiwnedd a geir rhag brechiadau. Y rheswm am hyn yw y gall lefelau gwrthgyrff yn y gwaed ddirywio dros amser, sy'n golygu y gall rhai pobl sydd wedi cael COVID-19 o'r blaen yn profi negyddol am wrthgyrff. Am y rheswm hwn, dylid ystyried y ffigurau hyn fel amcangyfrifon o nifer yr achosion o wrthgyrff misol, nid amlygiad cronnus.


Rhwng 13 a 19 Chwefror 2023, roedd canran y bobl a brofodd yn bositif am wrthgyrff ar y trothwy (179ng/ml) yn amrywio o 90.7% mewn pobl 25 i 34 oed i 98.8% mewn pobl 75 i 79 oed. Ar y trothwy (800ng/ml) roedd y canran yn amrywio o 66.4% mewn pobl 25 i 34 oed i 93.2% mewn pobl 70 i 74 oed.

Sylwch mai dim ond ar gyfer grwpiau oedran dros 16 oed y cyflwynir amcangyfrifon yn y datganiad hwn oherwydd y broses sicrwydd ansawdd ar data ar gyfer grwpiau oedran iau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid gofalu wrth ddehongli’r amcangyfrifon hyn. Mae’r cyfyngau credadwy yn eang a maint y sampl yn gymharol fychan, sy’n golygu bod ansicrwydd o gwmpas y ffigurau hyn.

## Ffigur 2: Amcangyfrif o ganran y boblogaeth yng Nghymru a gofnodwyd eu bod yn profi'n bositif am wrthgyrff coronafeirws (COVID-19) yn ôl grŵp oedran, 13 i 19 Chwefror 2023




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r siart yn dangos bod y canrannau o bobl a oedd yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

profi'n bositif am wrthgyrff COVID-19 rhwng 13 a 19 Chwefror 2023 yn parhau i fod yn uchel mewn pob grwp oedran ar gyfer y trothwy 179ng/ml ond yn is ar gyfer y trothwy 800ng/ml yn enwedig ar gyfer y grwp oedran dan 75 oed.

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), SYG

Nodyn: Mae'r barrau'n rhoi amcangyfrifon ac mae'r llinellau llorweddol tennau ar pen y barrau yn dynodi'r cyfyngau credadwy o 95%. Mae barrau glas golau yn nodi canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff ar y trothwy 179ng/ml ac mae barrau glas tywyll yn nodi canran ar y trothwy 800ng/ml yn yr un modd.

Yn y datganiad hwn darperir trothwyon gwrthgyrff ychwanegol i roi darlun manylach o lefelau gwrthgyrff fesul grŵp oedran. Mae Siart 3 yn dangos cyfran y boblogaeth oedolion yr amcangyfrifir bod ganddynt wrthgyrff i SARS-CoV-2 ar gyfer y trothwyon canlynol:

- 2,000 ng/ml
- 4,000 ng/ml
- 6,000 ng/ml


Mae hyn yn dangos bod canran y bobl sy’n profi’n bositif yn uwch ar y trothwy 2,000ng/ml ac yn gostwng wrth i’r trothwy gynyddu. Y rhai yn y categori oedran 35-49 sydd â'r lefelau isaf o wrthgyrff ar draws y tri throthwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3: Amcangyfrif o’r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi cael canlyniad prawf positif am wrthgyrff yn ôl grŵp a throthwyon uwch oedran rhwng 13 i 19 Chwefror 2023




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae’r siart yn dangos bod canrannau’r bobl sy’n profi’n bositif am wrthgyrff COVID-19 rhwng 13 a 19 Chwefror 2023 ar eu huchaf ar y trothwy 2000ng/ml ond yn is ar y trothwyon 4000ng/ml a 6000ng/ml.

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), SYG


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nodyn: Mae'r bariau glas golau yn nodi canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff ar y trothwy 2000ng/ml a'r bariau glas tywyll yn yr un modd ar gyfer y trothwy 6000ng/ml. Mae canoMae'r bariau glas golau yn nodi canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff ar y trothwy 2000ng/ml a'r bariau glas tywyll yn yr un modd ar gyfer y trothwy 6000ng/ml. Mae canol y tri bar yn cynrychioli'r trothwy 4000ng/ml.

## Trothwy gwrthgyrff

Mae ymchwil academaidd ar drothwyon gwrthgyrff, gan ddefnyddio data o'r adeg pan oedd yr amrywiolyn Delta yn straen amlycaf, yn dangos bod angen trothwy uwch o wrthgyrff i ddarparu amddiffyniad rhag heintiau COVID-19 newydd i'r rhai sy'n cael eu brechu. Penderfynwyd ar y trothwy a ddefnyddiwyd yma o'r blaen, y cyfeirir ato fel y 'trothwy safonol (42 ng/ml)' cyn datblygu'r brechiadau coronafeirws (COVID-19). Nid adroddir ar y trothwy hwn mwyach.

Mae SYG bellach wedi cyflwyno drothwyau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chrynodiad uwch o wrthgyrff, i amcangyfrif canran yr oedolion sy'n debygol o fod ag amddiffyniad cryf rhag cael haint COVID-19 newydd. Mae haint COVID-19 blaenorol fel arfer yn arwain at ymateb imiwn cryfach na brechiad. Er mwyn cael lefel debyg o amddiffyniad rhag brechu yn unig, mae angen crynodiad uwch o wrthgyrff.

Ganfodwyd y trothwy o 179 ng/ml ei fod yn darparu risg 67% yn is o gael haint COVID-19 newydd gyda'r amrywiad Delta ar ôl dau frechiad gyda brechlynnau Pfizer neu AstraZeneca, o'i gymharu â rhywun nad oedd wedi'i frechu ac nad oedd wedi cael COVID-19 o'r blaen. Canfodwyd y trothwy uwch hwn trwy gymharu sut roedd y risg o heintiau COVID-19 newydd â'r amrywiad Delta, yn amrywio ar draws gwahanol lefelau gwrthgyrff. Mae'n annhebygol y bydd y trothwy hwn yn darparu amddiffyniad cyfatebol yn erbyn yr amrywiad Omicron ac mae dadansoddiadau o effeithiolrwydd brechiadau yn erbyn yr amrywiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Omicron yn parhau.

Wrth i'r pandemig a'r brechiadau ddatblygu, mae SYG wedi adolygu sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno am lefelau gwrthgyrff. Er mwyn galluogi monitro gwell ar lefelau gwrthgyrff a gwanhau, mae cyfres gwrthgyrff ychwanegol wedi'i chyflwyno yn seiliedig ar lefel uwch o 800 (ng/ml). Bydd y data gwrthgyrff yn gael eu cynnwys yn nata **gwrthgyrff Coronafeirws ONS (COVID-19) ar gyfer set ddata'r DU**.

Mae angen sicrwydd ansawdd ychwanegol ar amcangyfrifon brechu wedi'u modelu ar gyfer un neu fwy a dau neu fwy o frechiadau COVID-19 ar gyfer Cymru ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma.

# Diffiniadau

## Poblogaeth gymunedol

Mae'r Arolwg hwn yn cynnwys pobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat, a chyfeirir atynt fel poblogaeth gymunedol. Nid yw'n cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a/neu leoliadau sefydliadol eraill.

## Cyfwng credadwy

Mae cyfwng credadwy yn dangos y lefel o ansicrwydd i amcangyfrif mewn dadansoddiad data. Mae cyfryngau credadwy o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau mai'r tebygolrwydd y bydd y gwir gwerth o fewn y cyfrwng yw 95%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Y gyfradd positifedd

Y gyfran o bobl a amcangyfrifir sy’n profi’n bositif am wrthgyrff rhag coronafeirws (COVID-19) ar adeg benodol.

## Wythnosau gwyliadwriaeth

Mae'r rhain yn wythnosau safonol o ddydd Llun i ddydd Sul, sy'n cael eu defnyddio'n rhyngwladol ac sy'n ddefnyddiol ar gyfer cymaroldeb. Fodd bynnag, mae'r dull hwn weithiau'n arwain at amcangyfrifon sy'n cyfeirio at gyfnod o lai na 7 diwrnod os nad oes data'r wythnos gyfan ar gael.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gellir cael gwybodaeth am y dull a ddefnyddir i fodelu’r amcangyfrifon gwrthgyrff a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn ar **wefan ONS**. Mae’r model yn seiliedig ar safoni wythnosau gwyliadwriaeth sy’n mynd o ddydd Llun i ddydd Sul, yn hytrach nag yn seiliedig ar y cyfnodau 28 o ddiwrnodau a ddefnyddiwyd i adrodd yn flaenorol, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynhyrchu amcangyfrifon wythnosol sy’n fwy amserol. Cafodd yr amcangyfrifon sy’n seiliedig ar y model eu cyflwyno o 4 Ionawr 2021 ymlaen. Mae mwy o ansicrwydd ynglŷn â’r amcangyfrif a gafodd ei fodelu ar gyfer yr wythnos olaf, gan fod honno’n wythnos anghyflawn ac mae’r data felly’n fwy tebygol o newid pan ddaw mwy o ddata i law.

Mae’r dadansoddiad a gyflwynwyd yn seiliedig ar ganlyniadau profion gwaed o is-sampl dethol o unigolion 16 oed a hŷn a ddewiswyd ar hap, a ddefnyddir i brofi am wrthgyrff yn erbyn SARS-CoV-2. Gellir ei ddefnyddio i helpu i ddeall pwy sydd wedi cael yr haint yn y gorffennol neu sydd wedi datblygu gwrthgyrff o ganlyniad i’r brechlyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Un ffordd mae'r corff yn ymladd COVID-19 yw drwy gynhyrchu gronynnau bach yn y gwaed a elwir yn wrthgyrff. Mae'n cymryd rhwng dwy a thair wythnos i wneud digon o wrthgyrff i ymladd yr haint. Mae gwrthgyrff yn aros yn y gwaed ar lefel isel, er y gall y lefelau hyn leihau dros amser nes eu bod mor isel na all y profion eu hadnabod. Gall gwrthgyrff helpu i atal unigolion rhag dal yr un haint ddwywaith.

Bydd presenoldeb gwrthgyrff yn cael ei fesur i ddeall pwy sydd wedi cael coronafeirws (COVID-19) yn y gorffennol ac effaith y brechlynnau. Ar ôl dal yr haint, ni wyddom yn llawn am ba mor hir mae gwrthgyrff yn aros yn y gwaed ar lefelau y gellir eu canfod. Ni wyddom chwaith, hyd yn hyn, ym mha ffordd mae bod â gwrthgyrff, nawr neu ar ryw adeg yn y gorffennol, yn effeithio ar y tebygolrwydd o ddal COVID-19 eto.

Er mwyn galluogi monitro gwell ar lefelau gwrthgyrff a gwanhau, mae cyfres gwrthgyrff ychwanegol wedi'i chyflwyno yn seiliedig ar lefel uwch o 800 (ng/ml). Y lefel hon yw'r lefel uchaf y gellir cynhyrchu ôl-gyfres hanesyddol arni. Mae'r lefel 800 ng/ml wedi'i dewis yn seiliedig ar ddata canlyniad y prawf yn unig i ddarparu amcangyfrifon hanesyddol ac nid yw'n seiliedig ar unrhyw dystiolaeth ar lefel y gwrthgyrff sydd eu hangen i amddiffyn rhag Omicron, gan nad yw'r dystiolaeth hon ar gael eto. Mae trothwyon newydd bellach wedi'u cyflwyno sy'n rhoi amcangyfrifon o bositifrwydd gwrthgyrff ar 2000 ng/ml, 4000 ng/ml a 6000 ng/ml. Mae'r lefelau hyn wedi'u cyflwyno i alluogi monitro gwell ar lefelau gwrthgyrff a gwanhau.

Er sylw, nid yw'r lefel 800 ng/ml wedi'i chyflwyno ar hyn o bryd gan fod yr amcangyfrifon hyn yn cael prawf sicrhau ansawdd pellach.

Mae **dangosfwrdd coronafeirws y DU** yn cynnwys data dyddiol ar gyfer y DU, a phob gwlad sy'n rhan ohoni, o ran y nifer gwirioneddol o bobl sydd wedi cael brechiad COVID-19. Mae hyn yn seiliedig ar gofnodion brechu unigol (data gweinyddol sy'n cael eu cadw gan bob gwlad), ac a ddylai gael eu defnyddio i ddeall hynt y rhaglen frechu ar draws y DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae’r ystadegau hyn yn cyfeirio at heintiadau a adroddwyd yn y gymuned, sef aelwydydd preifat. Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys heintiadau a adroddwyd mewn ysbytai, cartrefi gofal a/neu sefydliadau eraill. Mae’r boblogaeth a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn cyfeirio at y **boblogaeth gymunedol** 16 oed a hŷn.

Mae'n bwysig nodi bod cryn dipyn o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon. Y rheswm am hyn yw, er gwaethaf sampl fawr o gyfranogwyr, fod nifer yr achosion positif a nodwyd yn fach. Rhoddir yr amcangyfrifon gyda **cyfyngau credadwy** o 95% i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi’i gynnwys ynddi.

Mae rhagor o wybodaeth am y canlyniadau profion gwrthgyrff yn cael ei chyhoeddi gan y **Swyddfa Ystadgau Gwladol** ac yn cynnwys gwybodaeth am wrthgyrff ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae’r amcangyfrifon ar gyfer **Gogledd Iwerddon** a’r **Alban** yn cael eu cyhoeddi gan y gwahanol weinyddiaethau, yn yr un modd ag yma yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael ar **wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol** a thudalennau arolwg safle **Prifysgol Rhydychen**.

Rhagor o wybodaeth am **Arolwg Heintiau COVID-19 yng Nghymru**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol  hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

# Diweddariad nesaf

Heb ei ddiweddaru mwyach.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sean White
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 30/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-13-i-19-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.